

# Selga Martin yn Hel Atgofion o'r Almaen ei phlentyndod

**H**el atgofion yw'r peth! Sôn am yr amser a fu yw'r weithred sy'n rhoi y pleser cywiraf i'r rhai fel fi sy'n brysio heneiddio, ond i chi ddod o hyd i rywun sy'n fodlon gwranddo. Pa mor heulog oedd yr hafau ers talm - wrth gofio'n ôl - a pha mor anhygoel oedd dyfnder eira ein plentyndod!

Roedd hyn yn hollol wir cyn belled ag y mae'r eira yn y cwestiwn. Cofiaf yn aml weld golau annaearol yn y llofft, wedi deffro ar ôl iddi fwrw eira drwy'r nos, a'r ffenestri i gyd wedi'u haddurno gyda llenni gwynion rhyfedd - ar y tu allan!

## Pob teulu yn glanhau yr eira o flaen eu tai

Am ryw bedwar mis yn ystod y gaeaf, nid oedd pedair, pump, chwe trofedd o eira yn ddim anarferol, a'r un fath o dywydd gaeafol yn Y Swistir, gwlad fy ngenedigaeth. Byddai'r ffordd gawl yn cael ei thriga ag. Byddai'r weddi'i thynnu gan geffylau gwedd o eiddo'r bragdy, er mwyn i geir llusg fedru symud nwyddau fel bwyd a glo a'r post. Hyd heddiw, disgwylir i bob teulu yn Yr Almaen ysgubo eira newydd o flaen eu tai o'r neilltu, a hynny ben bore, er diogelwch pobl sy'n mynd heibio. Ym mhobman arall, arhosai'r eira yn drwchus ar lawr ac ar doeau. Ni fuom yn gaeth o'r herwydd, sut bynnag. Dychmygwch yr hwyl i blentyn 'gerdded' ar ei sgiau heb rwystr dros ffens a ffos anweledig er mwyn cyrraedd yr ysgol neu'r pentref agosaf, neu i chwarae gyda'i ffrindiau ar fferm anghysbell! Byddai'r eira wedi cuddio pob dim ond y coed a'r adeiladau. Byd heb lôn na ffordd, byd du a gwyn hynod oedd hwn.

A'r hafau. O! yr hafau diddiwedd braf. Nid oes angen ymhelaethu ar y gwres tanbaid, y



Ar fy ffordd i'r ysgol

nofio yn yr afon, y gwaith caled ar dir ffermydd ac yn yr ardd lysiau, am eich bod chi, ddarllenwyr, yn cofio'r rheiny hefyd.

Gall pob un mewn oed dystio bod agweddau y cawsom ein magu â nhw yn effeithio arnom ar hyd ein bywydau cyfan. Cofiaf i bedwar peth gael blaenoriaeth yn ein teulu ni, sef crefydd, natur, canu a darllen/ysgrifennu.

## Mynychu'r Offeren bob bore cyn brecwast

Duw a fu gyda phob un ohonom bob eiliad o bob dydd, yn gwmni braf o hyd. Dyna oedd ein cred. Fel Catholigion daeth yn naturiol i ni ddechrau'r diwrnod yn yr eglwys yn gwranddo ar offeren bob bore cyn cael brecwast ac yna yn mynd i'r ysgol am 7 o'r gloch yn yr haf ac am 8 y.b. yn ystod y gaeaf. Roeddwn yn cymryd yn ganiataol i weddio cyn mynd i'r gwely, cyn ac wedi bwyd, hefyd am hanner dydd ac am 6 y.b. gyda chlychau'r eglwys yn canu. Y rhyfion hynny a roesai fframwaith i fywyd pob dydd ac a fyddai yn ei dro yn creu teimlad o ddiogelwch, heb i ni fod yn ymwybodol o'r ffaith.

## Mwynhau rhyfeddodau byd natur

Roedd bywyd yn llym a gweithio yn galed yn hanfodol hyd yn oed i blant, i gael tân yn stôf y gegin a bwyd yn y sosban ar hyd y flwyddyn. Ond yn amlach na pheidio, llwyddai mam i droi gwaith yn hwyl. Gwnai amser o hyd i ni allu gweld a rhyfeddu at bethau Byd Natur yn ymyl y ffordd, ar goeden, llwyn neu o dan wrych. Mwynhad pur oedd edrych yn fanwl ar bob mathau o ryfeddodau, yn blanhigion a'u blodau a'u hadau, yn chwilod, pryfed neu anifail gwyllt a physgod. Natur yn ei llawddwch a'i harddwch oedd ein gwynfyd - pethau i synnu atynt, i'w casglu, i'w defnyddio, i'w gwerthu a'u mwynhau. Magwyd chwylfrydedd ym meddwl fy mrawd bach a minnau wrth fynd ymlaen yn y modd yma. Nid oedd ots gennym na wyddom ond y lleiaf am glystyrau o sér; eu gwychder ar ganfas glas eang uwchben wnaeth inni ganu ambell i noson wrth gyd-gerdded tuag adre.

## Hoff o ganu emynau

Ie, canu oedd yr arfer gennym pan yn cerdded filltiroedd i gyrraedd lle bynnag yr oedd yn rhaid i ni fynd. Yn aml y ceid bws i'r dref siopa a dim ond yn yr haf. Beiciau oedd yn llywyddu ym myd trafndiaeth, ond ein coesau a gafodd eu defnyddio y rhan amlaf o'r flwyddyn. Bu mam yn hoff o ganu emynau - o gwmpas y cartref neu ar daith i rywle. Roedd hyn yn dderbyniol gennym, y plant, yn enwedig oherwydd fy mod i wedi bod yn aelod o gôr ifanc yr eglwys ers yn 8 oed a'm brawd yn was allor. O'r ysgol daeth ein gwybodaeth, a chyda hynny, fy ngwerthfawrogiad am ganu gwerin Yr Almaen, Awstria a'r Swistir. Trwy fy nain



Eglwys Suhr( tref farchnad) - lle y'm bedyddiwyd

dysgais am gerddoriaeth ehangach. Roedd hi'n hoff iawn o weithiau'r teulu Strauss. Byddai'r caneuon rheiny yn rhoi'r pleser o hel atgofion am 'fiwsig pop' ei hieuenctid iddi hi. Teimlai'n wastad yn euog mai dim ond wrth chwibanu roedd hi'n gallu trosglwyddo'r melodïau cyffrous hyn o'i chof hi i'm meddiant i. 'Mi wn nad yw chwibanu yn iawn i ferched i'w wneud - ond!' Nid, felly, o wrando ar recordiau (nid oedd gennym beiriant gramaffon), ond gan fy nain yn chwibanu'n bersain ar hyd llwybrau cefn gwlad fy mebyd dysgais am gerddoriaeth Strauss. Cyfarwyddais â chyfansoddwyr eraill yn yr ysgol breswyl yn nes ymlaen, ac wedi hynny roeddwn yn perthyn i bum côr ar un adeg. Canaf o hyd er bod fy llais soprano wedi hen ddirywio. Gresyn na allaf chwibanu, chwaith.

Wedi codi yn gynnar - wedi gweithio'n ddiwyd, wrth ganu weithiau - wedi dysgu ddiwyd chwilio a phrofi - beth sy'n well i



Cornel Duw yn y tŷ